**ELL 04-01 (mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 14 Chwefror 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Democratiaid Rhyddfrydol | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Ceidwadwyr | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc y Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau**

Jonathan Morgan, Christine Humphreys, Gareth Jones

**Dirprwyadau**

Peter Black yn lle Christine Humphreys

William Graham yn lle Jonathan Morgan

Owen John Thomas yn lle Gareth Jones

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Owen John Thomas Athro Cymwysedig a Llywodraethwr Ysgol

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd

Peter Black Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Cymru,

Abertawe. Aelod o Gyngor Dinas Abertawe.

William Graham Aelod o Gyngor Bwrdeistref Casnewydd

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod â'r Gweinidog a'u bod wedi cytuno nad oedd angen yr Egwyddorion Fframwaith a osodwyd gan y Pwyllgor Addysg Cyn-16 bellach gan fod y ddogfen GwellCymru.com a dogfen y cytundeb Partneriaeth yn rhoi amlinelliad digonol o'r fframwaith ar gyfer Polisi Addysg yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor yn unfryd nad oedd y papur Fframwaith yn angenrheidiol bellach.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylai adroddiad misol y Gweinidog gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar amser cinio ar y dydd Iau cyn cyfarfod o'r Pwyllgor. Er mwyn sicrhau archwilio gweinidogol effeithiol, yr oedd angen i'r Pwyllgor dderbyn copi o'r adroddiad ymhell o flaen llaw. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu ei

hadroddiad erbyn amser cinio ar ddydd Iau, byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 04-01(p.1)***

1.1 Rhoddodd y Gweinidog ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor ynghylch materion yr oedd yn ymdrin â hwy ar y pryd ac eitemau yr oedd Aelodau wedi gofyn am adroddiad arnynt.

**Setliad Refeniw Llywodraeth Leol**

1.2 Yr oedd Setliad Refeniw Llywodraeth Leol yn hwyluso cynnydd cyffredinol mewn gwariant gan awdurdodau lleol o 5.9%, pe bai'r gwariant ar addysg yn cynyddu'n weddol gyson â'r cynnydd cyffredinol byddai'n arwain at £80 miliwn ychwanegol i addysg yng Nghymru. Gan gymryd i ystyriaeth beichiau ychwanegol trothwy tâl yr athrawon ac ymddeol cynnar ymysg penaethiaid ysgol, pe bai'r awdurdodau'n neilltuo 5.9% o gynnydd i addysg, byddai'r cynnydd cyffredinol yn y gwariant ar addysg yn £103 miliwn. Byddid yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch penderfyniadau cyllideb pob awdurdod yn yr haf ar ôl dadansoddi'r ffurflenni.

- A ellid rhoi gwedd eglurach ar gyfanswm y cyllid i addysg fel ei bod yn eglur nad oedd 'cyfrifo dwbl' rhwng dyraniadau cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol a grantiau Cynnal y Trethi?

Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor nad oedd cyfrifo dwbl, yr oedd Grant Cynnal y Trethi yn ychwanegol at y dyraniad cyllideb a gymeradwyir gan y Cyfarfod Llawn.

- A fyddai taliadau uniongyrchol i ysgolion yn parhau?

Lle y byddai'n briodol, byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i ysgolion drwy grantiau Cynnal y Trethi o hyd.

- Os na fyddai'r AALlau yn rhoi'r 5.9% o gynnydd, pa sancsiynau y byddai'r Gweinidog yn eu gosod? Ar gyfer beth yn union y dyrannwyd y cyllid o £2.05 miliwn i gynllun y penaethiaid ysgol?

Yr oedd y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol, felly ni fyddid yn gosod sancsiynau. Fodd bynnag, byddai'r Cynulliad yn monitro'r allbwn polisi o'r awdurdodau lleol. Byddai rhyddid i AALlau ychwanegu at bensiynau penaethiaid ysgol a oedd wedi eu lleihau'n actiwaraidd.

**CBAC**

1.3 Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor fod newidiadau wedi bod yn nhîm rheoli CBAC: etholwyd Cadeirydd newydd, Mr Jeff Jones, ac yr oedd swydd y Prif Weithredwr wedi ei hysbysebu. Bydd y Gweinidog yn cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar ôl penodi rhywun i'r swydd honno.

- Pam nad oedd y Gweinidog wedi cymryd camau digonol i ddiogelu statws ariannol CBAC?

Yr oedd CBAC yn gorff ar wahân a byddid yn dechrau negodiadau ar ôl penodi'r Prif Weithredwr.

- Yr oedd y Cynulliad wedi gofyn i'r Gweinidog adrodd ar ddatblygiadau CBAC, pam nad oedd dim i'w adrodd?

Yr oedd CBAC wedi gwneud ei ddarpariaeth archwilio ei hun, wedi i'r Gweinidog gyfarfod â'r rheolwyr newydd ac, ar ôl cwblhau'r archwiliad, byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn.

**Datblygu'r Cwricwlwm ar Lefel Uwchradd**

1.4 Yr oedd Rhaglenni Astudio Cyfnod Allweddol 4 wedi eu cyflwyno'n raddol er mwyn sicrhau bod digon o amser i newid y meysydd llafur TGAU i adlewyrchu'r gofynion newydd. Byddai'r Rhaglenni Astudio ar gyfer yr holl bynciau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion ym Medi 2001. Yr oedd ACCAC wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y TGAUau Galwedigaethol newydd.

- Mae prinder o ran y nifer sydd yn cymryd ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4. A wnâi'r Gweinidog ystyried newid y pynciau craidd o Gymraeg i Gymraeg neu iaith dramor fodern?

Nid oedd bwriad i newid y pynciau craidd. Rhannai'r pryder ynghylch y prinder yn y nifer a oedd yn cymryd yr ieithoedd tramor modern y dylai Cymru elwa arnynt. Yr oedd strategaeth ieithoedd tramor ddrafft allan ar y pryd. Gobeithid y byddai rhai cynigion radicalaidd ar gyfer y dyfodol ynghylch ieithoedd tramor.

- Yr oedd athrawon yn mynegi pryder bod y Cwricwlwm newydd ynghlwm wrth ganlyniadau arholiad i fwy o raddau nag yr oedd wrth ddysgu. A fyddai'r un statws i'r TGAUau galwedigaethol newydd ag i'r holl TGAUau eraill?

Yr oedd y Gweinidog wedi cyfarfod yn rheolaidd â phenaethiaid ysgol, nid oedd eu pryderon yn rhai penodol, yr oedd amrediad eang o bryderon ynghylch rheoli'r newidiadau hyn. Byddai'r ddeialog â phenaethiaid ysgol yn parhau. Byddai'n rhaid i'r Cynulliad ystyried sut y gallai gynorthwyo ysgolion mewn perthynas â'r newidiadau hyn. Byddai'n rhaid i ELWa (Addysg a Dysgu Cymru) geisio datblygu parch cyffelyb at ragoriaeth academaidd a galwedigaethol.

- Yn lle gwahaniaethu rhwng TGAUau academaidd a galwedigaethol, pam na ellid cael TGAUau yn unig?

Ni fyddai'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ac ACCAC yn caniatáu unrhyw gymysgu rhwng y gwahanol fathau hyn o gymhwyster.

## Y Fagloriaeth Gymreig

1.5 Yr oedd y trefniadau ar gyfer rhaglen beilot y Fagloriaeth Gymreig yn symud ymlaen. Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor gyda gwybodaeth bellach gyda hyn.

- A allai'r Gweinidog atgoffa'r Pwyllgor o gost rhagbrofi rhaglen y Fagloriaeth Gymreig?

Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at y Cadeirydd, gan roi'r costau.

## Cynnydd ar y Diwygiad Arfaethedig o'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru a'r Newidiadau i Reoliadau Anghenion Addysgol Arbennig Cysylltiedig

1.6 Ni fyddai modd i'r Cod drafft terfynol a'r Rheoliadau diwygiedig angenrheidiol ddod gerbron y Cynulliad hyd nes i'r Mesur dderbyn Cydsyniad y Frenhines. Yr oedd y Gweinidog hefyd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth gan geisio cytundeb ganddo i ddiwygiad dan nawdd y Llywodraeth i'r Mesur Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd, i sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. Buasai David Blunkett yn falch o gefnogi'r syniad mewn egwyddor, fodd bynnag, byddai angen 102 o ddiwygiadau i'r Mesur cyfredol i gyflawni hynny. Nid oedd digon o amser i hynny ddigwydd. Felly, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â hynny.

- Yn y Cod Ymarfer, gwnaethpwyd darpariaeth ar gyfer profi dyslecsia ar gyfer siaradwyr iaith-gyntaf Cymraeg, drwy gyfrwng y Gymraeg. Pa gamau eraill a gymerir i sicrhau sylw i fater cyfle cyfartal ?

Yr oedd gwaith ar y gweill i sicrhau y byddai profion ar gael yn y ddwy iaith; yr oedd ymrwymiad i gydraddoldeb yn y ddarpariaeth.

## Lleoedd Dros Ben mewn Ysgolion

1.7 Yr oedd y Pwyllgor i fod i ystyried ei adroddiad ar y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion yn y dyfodol agos. Erbyn dechrau Ebrill, byddai adroddiad Archwiliad Dosbarth ar gael a ystyriai sut yr oedd detholiad o awdurdodau wedi ymdrin â dileu lleoedd a oedd dros ben.

- O wybod bod y Pwyllgor yn adolygu'r broses, a ellid gohirio'r gofyniad i AALlau gyflwyno eu cynlluniau trefniadol?

Dywedodd y Gweinidog na ellid gohirio cyflwyno cynlluniau trefniadol.

## Ysgol Bro Myrddin

1.8 Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi hysbysu AALl Sir Gaerfyrddin y byddai angen cynigion

statudol os oedd Ysgol Bro Myrddin yn bwriadu symud ymlaen â dysgu'r holl bynciau perthnasol yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg o Fedi 2002. Yr oedd rhieni wedi parhau i fod yn anfodlon â'r diddymiad graddol o Ddysgu Mathemateg a Gwyddoniaeth Cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Yr oedd Llywodraethwyr Ysgol Bro Myrddin wedi sefydlu panel yn ddiweddar i ymchwilio i'r gwahanol safbwyntiau yn yr ysgol ac i egluro i rieni pam y dymunent newid y ddarpariaeth iaith yn yr ysgol o Fedi 2002.

- Gallai'r ymadrodd, "yr oedd rhieni wedi parhau….", awgrymu tuedd gan fod y gair "rhai" wedi ei hepgor. A wnewch gytuno i newid yr ymadrodd yn "rhai rhieni"?

Cytunodd y Gweinidog i newid yr ymadrodd.

**Tâl Athrawon**

1.9 Cyhoeddwyd Adroddiad Corff Adolygu'r Athrawon Ysgol 2001 gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar 2 Chwefror 2001. Yr oedd yr adroddiad yn argymell codiad o 3.7% i athrawon a byddai graddedigion sydd yn dechrau dysgu yn derbyn cyflog dechreuol o £17,000. Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cydnabod y byddai galwadau'r dyfarniad yn rhoi pwysau ar awdurdodau lleol ac, felly, yr oedd wedi darparu £6 miliwn ychwanegol i gynnal y newidiadau hyn.

- A wnâi'r Gweinidog ddatganiad ynghylch Papur Gwyrdd Lloegr ar Addysg?

Y ddau faes yn y Papur Gwyrdd a effeithiai ar Gymru oedd: cynnig yr Adran Addysg a Chyflogaeth i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn achos athrawon sydd newydd gymhwyso a recriwtio athrawon newydd. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar y mater hwn fel rhan o'r Adroddiad Gweinidogol nesaf ar 21 Mawrth 2001.

**Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant**

1.10 Ar 8 Chwefror 2001, yr oedd y Gweinidog wedi cyhoeddi enwau deg aelod y Cyngor ac enw newydd y Cyngor: ELWa – Addysg a Dysgu Cymru. Yr oedd yr ymgeiswyr a ddewiswyd, drwy ddilyn Cod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Benodiadau Cyhoeddus, yn rhai o safon uchel a chyfrannent amrediad o fedrau a phrofiad i gario gwaith ELWa yn ei flaen er mwyn sicrhau moderneiddio cynhwysfawr ar addysg a hyfforddiant ôl-16, er budd yr holl ddysgwyr yng Nghymru. ELWa bellach oedd y Corff Cyhoeddus mwyaf o dan nawdd y Cynulliad a chanddo gyllideb o tua £370 miliwn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ystyr "ELWa" yn y Gymraeg gan ddweud ei fod yn enw rhagorol gan ei fod yn golygu elwa'n addysgol yn y cyd-destun hwn.

- Beth yw'r rheswm pam nad oes yr un o'r deg sydd newydd eu penodi yn athro?

Nid oedd ELWa yn cynnwys strwythur cynrychioladol, fodd bynnag, yr oedd gan bawb a benodwyd amrediad eang o fedrau addysgol. Yr oedd y Gweinidog yn ysgrifennu ar hyn o bryd at y CCAHau i sicrhau y ceid mewnbwn gan athrawon ar lefelau lleol a rhanbarthol.

**Graddau Sylfaen**

1.12 Yr oedd y Gweinidog wedi derbyn cyngor gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch y modd y gellid modelu a sefydlu'r Radd Sylfaen newydd yng Nghymru; cytunasai'r Gweinidog a dywedwyd wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru y dylai fwrw ymlaen i roi'r cymhwyster ar waith yng Nghymru heb gyfnod rhagbrofi yng Nghymru. Nid oedd bwriad ar hyn o bryd i gynyddu grant y Cyngor.

**Grp Ymchwilio i Gyni Myfyrwyr**

1.13 Byddai'r Grp yn casglu tystiolaeth mewn gwrandawiadau yn Llangefni a Wrecsam yn Chwefror ac yng Nghaerfyrddin, Llandrindod, Caerdydd a Merthyr Tudful ym Mawrth. Byddai'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 23 Mai pan fyddai'r Athro Theresa Rees, Cadeirydd y Grp, yn rhoi cyflwyniad.

- Mynegwyd pryder am na fyddai canfyddiadau'r Grp ar gael cyn mis Mai.

Yr oedd y Grp yn annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol ac yr oedd wedi pwysleisio bod arno angen amser i gwblhau'r ymchwiliad yn briodol. Byddai adroddiad y Grp ar gael ym mis Mai a byddai'r Gweinidog yn cyflwyno argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mehefin.

1.14 Atgoffaodd y Cadeirydd yr Aelodau y dylent roi i'r Clerc unrhyw awgrymiadau a oedd ganddynt am eitemau i'w trafod yn Adroddiad nesaf y Gweinidog erbyn dydd Iau 22 Mawrth.

**Eitem Dau: Cyflwyniad gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

2.1 Rhoddwyd gwahoddiad gan y Pwyllgor i'r Cadeirydd, yr Athro John Andrews a Gary Brace, Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, roi cyfarwyddyd i'r Pwyllgor ar eu cynnydd hyd hynny a'u rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

2.2 Yr oedd y Cyngor wedi enwi ac wedi paratoi ei amcanion, wedi anfon gwahoddiadau i athrawon gofrestru ac yr oedd yn datblygu strategaeth ar gyfer Cod Proffesiynol i Athrawon. Yr oedd y Cyngor yn gobeithio bod yn annibynnol a gallu ei ariannu ei hun ond byddai arno angen cymorth ariannol gan y Cynulliad i ddechrau yn ôl pob tebyg. Eu prif bryder oedd y byddai athrawon yng Nghymru, oherwydd y sylfaen athrawon lai a oedd yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr, yn gorfod talu ffi gofrestru uwch na'u cymheiriaid yn Lloegr. Y materion polisi allweddol a oedd yn dod i'r amlwg yng ngolwg y Cyngor oedd: Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Recriwtio Athrawon ac Ariannu Mentrau.

- Mae'r Cyngor yn gorff newydd ac mae'n dymuno bod yn annibynnol a'i ariannu ei hun yn y pen draw, eto mae'n gofyn cyllid dechreuol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. A yw annibyniaeth

o’r fath yn angenrheidiol?

Yr oedd annibyniaeth yn holl bwysig i’r Cyngor. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd cyntaf hyn, wrth iddo ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, byddai arno angen cymorth y Cynulliad Cenedlaethol, am ryw 12-18 mis yn ôl pob tebyg ar ôl Hydref 2001.

- Un o dasgau’r Cyngor fyddai meithrin parch at athrawon. A fyddai hon yn dasg anodd i gorff newydd?

Yr oedd y gefnogaeth gan gyrff cyhoeddus fel yr Undebau yn dda. Er mwyn cyrraedd athrawon unigol, yr oedd y Cyngor wedi sefydlu gwefan – www.gtcw.org.uk

- Mewn perthynas â Chod Proffesiynol yr Athrawon, gallai athrawon deimlo nad oes ganddynt ber i arfer disgyblaeth dros blant. A oedd modd i’r Cyngor gryfhau sefyllfa athrawon, felly, a helpu i hybu gwell cydbwysedd per?

Yr oedd gorfodi cynhwysiant cymdeithasol ar athrawon/ysgolion wedi creu problemau am nad oedd unrhyw fodd iddynt wahardd disgyblion â phroblemau ymddygiadol. Yr oedd tyndra yn y Cod, a ddylid ateb pethau’n fanwl ynteu a ddylid llunio cod syml? A ddylai’r Cyngor gynnwys fframwaith ar gyfer penaethiaid ysgol ac athrawon, y byddai rhieni yn ei ddeall a llywodraethwyr yn ei gefnogi? Yn y bôn, ni ddylai athrawon deimlo eu bod ar eu pennau eu hunain.

- Mae rôl gan y Cyngor wrth gynnal safonau a darparu llais dros fuddiannau athrawon; yr oedd yr Undebau’n cynrychioli athrawon hefyd, beth yw’r rhyngwyneb rhwng y Cyngor a’r Undebau?

Nid oedd gan y Cyngor ran i’w chwarae mewn tâl ac amodau athrawon, yr oedd yr Undebau’n cynrychioli unigolion. Rôl y Cyngor oedd cynrychioli proffesiwn yr athrawon, er bod ganddo berthynas weithio agos â’r Undebau.

- Mae’r Cyngor wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau i’w helpu i gael barn yr athrawon ac i’w helpu i ddatblygu Cod priodol. A oedd gwyliau hanner tymor yr ysgolion wedi eu hystyried ar gyfer digwyddiadau, i alluogi athrawon i fod yn bresennol?

Y digwyddiadau oedd y cam cyntaf yn yr ymgynghoriad. Byddai’r ymgynghoriad allweddol yn digwydd pan oedd y Cod drafft wedi ei sefydlu. Hyderwyd y byddai’r prif ymateb yn cael ei dderbyn ar ffurf ysgrifenedig.

- A fyddai’r Cyngor yn peri i’r cysyniad o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus fod yn ddiddorol i athrawon?

Yr oedd y Cyngor yn credu’n gryf mewn hunanddatblygiad a hunanwellhad ar gyfer athrawon, ond yr oedd wedi ymrwymo i sicrhau y câi hynny ei gyflawni at safon uchel.

- A ydych yn rhagweld y byddwch yn arwain y ffordd ar strategaeth datblygiad a hyfforddiant proffesiynol a sut y byddech yn rhyngwynebu â chyrff eraill fel Estyn a’r AALlau?

Byddai'r Cyngor yn gweithredu ar lefel gyffredinol, strategol a byddai'r Cyngor yn canolbwyntio ar ei agenda a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

2.3 Dywedodd y Gweinidog fod angen casglu data i weld ym mhle'r oedd athrawon yn dysgu y tu allan i'w meysydd pwnc eu hunain. Gallai'r Cyngor a'r Cynulliad Cenedlaethol weithio gyda'i gilydd ar hynny.

**Eitem Tri: Blaenraglenni Gwaith Strategol**

3.1 Yn unol â rheol sefydlog 9.9, yr oedd yn ofynnol i bob pwyllgor pwnc gadw rhaglen weithio dreiglol yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf. Yr oedd hyn yn nodi'r fframwaith ar gyfer busnes y pwyllgor dros y 18 mis nesaf. Yr oedd pob pwyllgor pwnc yn derbyn blaenraglenni gwaith strategol y pwyllgorau eraill a châi'r cyfle i wneud sylwadau arnynt a dynodi meysydd o ddiddordeb cyffredin.

- Yr oedd y **Pwyllgor Diwylliant ELL 04-01(p.4)** yn cynnal adolygiad polisi o'r Iaith Gymraeg ac adolygiad o Chwaraeon. Cytunodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y dylid cynnal cyfarfod rhwng y ddau Gadeirydd i drafod y rhyngwyneb rhwng y ddau bwyllgor gyda'r Clercod yn bresennol.
- Yr oedd **Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, ELL 04-01(p.5)** yn bwriadu cynnal adolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus. Gan fod buddiant cyffredin adnabyddadwy mewn cludiant ysgol, byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ato.
- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y **Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ELL 04-01**, gan fod y Pwyllgor yn dymuno cael ei hysbysu am hynt Mesur Comisiynydd Plant Cymru. Hefyd, yr oedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynegi diddordeb yng ngwaith y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Anghenion Addysgol Arbennig. Byddai'r Cadeirydd yn awgrymu y câi aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn bresennol mewn trafodaethau a oedd yn ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig. Gellid ymdrin â materion eraill fel y bilsen bore trannoeth a llaeth/prydau ysgol ar y cyd hefyd.
- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd **Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ELL 04-01 (p.7)** i ddatgan diddordeb mewn trafodaethau ynghylch y Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid ac mewn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf lle'r oedd yn ymwneud â Dysgu Gydol Oes. Yr oedd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i dderbyn cyflwyniad hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 'bwysau' – cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ddatgan diddordeb y Pwyllgor a gofyn a allai dderbyn copi o'r adroddiad y cyfeirir ato.

3.2 Nid oedd Blaenraglenni Gwaith ar gael eto o'r **Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** a'r **Pwyllgor Datblygu Economaidd**.

**Eitem Pedwar: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad Undeb Cenedlaetholwyr y Myfyrwyr ar yr Adolygiad o Addysg Uwch o Safbwynt y Myfyriwr**

***Papur: ELL 04-01(p.8)***

4.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan Craig Owen, Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, a chyflwynwyd copïau ohono i'r Aelodau ac yn Atodiad B. Ychwanegwyd at ei gyflwyniad llafar gan Stephen Brooks, Dirprwy Lywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru a Rachael Tooth, Swyddog Benywod. Anogwyd y Cynulliad Cenedlaethol i ddangos ei gefnogaeth i fyfyrwyr a gofynnwyd iddo gymryd i ystyriaeth egwyddorion allweddol Siarter Hawliau'r Myfyriwr.

- A oes unrhyw gyfle i ymestyn y ddarpariaeth drwy gydweithredu, h.y. dysgu ac addysgu mewn un sefydliad a hefyd dysgu o bell/ysgolion penwythnos mewn lleoliad/sefydliad arall. A fyddai myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cysyniad hwn?

Byddai myfyrwyr yn dymuno manteisio ar gymaint o brofiad o ddysgu ag y bo modd. Y prif bryder ynghylch y cysyniad hwn oedd yr hwylustod a'r gost o deithio rhwng safleoedd. Mewn perthynas â chysyniad e-ddysgu, er mai un cyfrwng oedd hwn, ni allai gymryd lle'r fantais o gysylltiad rhwng pobl ar ffurf darlithydd neu fyfyrwyr eraill. Yr oedd cyfle yng Nghymru i sefydlu rhwydwaith traws-sectoraidd.

- O safbwynt y myfyriwr, a allech wneud sylw am y sail resymegol i'r cyfuniad arfaethedig rhwng Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd?

Yr oedd ymdeimlad cyffredinol o ddryswch ynghylch y cynnig arbennig hwn, gan na welai'r myfyrwyr y rhesymeg mewn cyfuno dau sefydliad a oedd â gwahanol sylfeini myfyrwyr a gwahanol genadaethau. Nid oedd seilwaith trafnidiaeth digonol ar waith. Fodd bynnag, yr oedd y myfyrwyr yn gadarnhaol at ei gilydd ynghylch y syniad o gydweithredu.

- Beth yw'ch barn am y ddarpariaeth o gymorth bugeiliol yng Nghymru?

Yr oedd y ddarpariaeth o Ofal Bugeiliol drwy Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn anghyson: yr oedd rhai sefydliadau'n cynnig darpariaeth ragorol, eraill yn cynnig bron ddim darpariaeth. Gofal Bugeiliol oedd y maes a gâi ei dorri gyntaf yn aml pan oedd pwysau i gwtogi.

Dywedodd y Cadeirydd y gallai'r ddarpariaeth o Ofal Bugeiliol fod yn gryfder allweddol yn strategaeth recriwtio'r sefydliadau addysg uwch, pe gellid ei ddatblygu at safon uchel drwy'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Yr oedd hyn yn arbennig o wir lle'r oedd ehangu mynediad i grwpiau a allgaewyd o Addysg Uwch cyn hynny o dan sylw.

- A oedd y System Tiwtor Personol yn wasanaeth drud i'w ddarparu?

Nid oedd yn ddrud, fodd bynnag, yr oedd angen gosod canllawiau arfer gwell. Ar hyn o bryd yr oedd yn rhaid i staff gadw'r ddysgl yn wastad rhwng darparu cymorth bugeiliol, ymchwil a dysgu. Yr oedd hyn yn ormod ac yr oedd angen neilltuo amser penodol.

**Eitem Pump: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad gan Fforwm**

**Papur: ELL 04-01(p.9)**

5.1 Cyflwynodd John Stephenson (Coleg Powys), Brian Robinson (Coleg Sir Gaerfyrddin) a John Griffiths (Coleg Menai) eu prif bapur (p.9) a phapur ychwanegol sydd yn Atodiad C. Eglurasant y byddai gwella technoleg yn fodd i ddod yn agosach at wireddu'r profiad llawn o Addysg Uwch mewn Addysg Bellach. Yr oedd Prifysgol Gymunedol Gogledd Cymru wedi profi hunaniaeth ranbarthol gryf wrth weithio gyda'i gilydd. Gyda'r cymorth a'r dysgu iawn, yr oedd TG yn arf effeithiol ar gyfer ymestyn mynediad a gallai hybu'r cysylltiadau rhwng Addysg Uwch ac Addysg Bellach sydd yn bodoli eisoes yng Nghymru.

- Pa gamau penodol y mae colegau Addysg Bellach yn eu cymryd i sicrhau bod ansawdd yr hyn a gyflwynant ar yr un gwastad â sefydliadau Addysg Uwch?

Yr oedd sicrwydd ansawdd yn holl bwysig ac yr oedd yn ddyletswydd ar bartneriaethau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Er enghraifft, yr oedd Prifysgol Morgannwg a'i phartneriaid wedi derbyn clod mewn archwiliad gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd; yr oedd y sefydliadau hyn ar y blaen mewn trefniadau masnachfreinio.

- Mae sawl model Addysg Bellach/Addysg Uwch yn rhedeg ar hyn o bryd, ai partneriaeth yw'r mecanwaith gorau?

Yr oedd materion rhwng partneriaeth ac ariannu. Er enghraifft, os câi cyllid ei ddyrannu i Addysg Bellach, byddai angen i'r sefydliadau dan sylw weithio'n agos â'i gilydd o hyd.

- Beth sydd yn pennu'r dewis o fecanwaith? A oes dadl dros symud tuag at ddull gweithredu unffurf?

Cymerid ffactorau hanesyddol i ystyriaeth: a oedd masnachfreintiau wedi eu cadw, a oedd ariannu diweddar yn ei le neu a oedd mentrau newydd ar gael. Yr oedd angen rhywfaint o resymoli, ynghyd â sylfaen adnoddau sefydledig.

- Mewn perthynas â TGCh a chostau cynnal a chadw, a fyddai hyn yn arwain at sefydliadau mwy?

Y syniad oedd 'galluogi mynediad', felly yr oedd TG yn ddarpariaeth berthnasol.

- Beth oedd y senario gorau ar gyfer ailstrwythuro'r sector Addysg Uwch er mwyn hybu darparu Addysg Uwch mewn sefydliadau Addysg Bellach?

Yr oedd o fantais elwa ar arbenigedd lleol ac adeiladu ar sail hynny. Dylid cymryd camau i osgoi dyblygu, dylai cydweithredu rhwng sefydliadau Addysg Uwch gynnwys sefydliadau Addysg Bellach hefyd. Yr oedd hyn yn fodd i ehangu mynediad i gymunedau lleol hefyd.

- Ym mha fodd y credwch y gall sefydliadau ehangu mynediad a chynnig darpariaeth wahanol?

Yr oedd cydweithredu'n holl bwysig wrth ehangu mynediad, byddai symud at Unedau achredu o gymorth. Yr oedd angen adlewyrchu anghenion unigolion yn y sylfaen ddarpariaeth gyffredinol.

- Beth yw barn Fforwm am y system, 'Un Wlad, Un Brifysgol'?

Ni fyddai angen y model hwnnw, oherwydd mae angen strategaeth sydd yn cyrraedd lefel y gymuned, yr oedd angen datblygu'r partneriaethau presennol. Yr oedd angen i unrhyw gydweithredu adeiladu ar sail cenadaethau sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau Addysg Bellach gan ddatblygu cydweithrediad lle'r oedd cenadaethau cyffredin, e.e. hyrwyddo dysgu gydol oes a rhwydweithiau cynorthwyol, a lle'r oedd nod gydnaws fel ymchwil a chymorth busnes.

**Eitem Chwech: Cofnodion Cyfarfod 31 Ionawr**

***Papur: ELL 04-01(min)***

Cadarnhawyd y cofnodion. Cytunwyd y dylid gwahodd Undebau Addysg Uwch fel Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch a'r Gymdeithas Athrawon Prifysgol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar yr adolygiad polisi Addysg Uwch mewn sesiwn ffurfiol. Gofynnwyd i'r Clerc wneud y trefniadau angenrheidiol.

**Atodiad A**

**Pwyntiau Gweithredu**

**1.Egwyddorion Fframwaith ar gyfer Addysg**

Dim camau pellach i'w cymryd ar y papur hwn.

**2. Adroddiad y Gweinidog**

Bydd y Gweinidog yn ei ddarparu i'r Clerc erbyn amser cinio ar ddydd Iau, yr wythnos cyn cyfarfod y Pwyllgor. Bydd y Gweinidog yn gallu ychwanegu unrhyw eitemau hwyr at ei hadroddiad yn ystod ei chyflwyniad.

- Setliad Refeniw Llywodraeth Leol am 2001-2001: Y Goblygiadau Posibl i Gyllidebau Addysg
- Bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf ar benderfyniadau cyllideb pob awdurdod.
- Y Gweinidog i roi cadarnhad i Owen John Thomas o'r union ffigurau ar gyfer addysg, drwy'r

Cynulliad a Grant Cynnal y Trethi.

- **Y Fagloriaeth Gymreig**

Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at y Cadeirydd ac yn anfon copi at yr aelodau ynghylch y cynnydd ar y rhagbrawf ynghyd â gwybodaeth am y costau cysylltiedig.

- Grp Ymchwilio i Gyni ac Ariannu Myfyrwyr – Amserlen ar 30/01/01

Bydd Theresa Rees yn cyflwyno adroddiad y grp i'r Pwyllgor ar 23 Mai.

- Y Papur Gwyrdd ar Addysg (Yr Adran Addysg a Chyflogaeth)

Byddai'r Gweinidog yn darparu papur ar oblygiadau'r Papur Gwyrdd i Gymru fel rhan o'i Hadroddiad Gweinidogol nesaf ar 21 Mawrth.

**3. Blaenraglenni Gwaith Strategol**

Y Pwyllgor Diwylliant

Y Clerc i drefnu cyfarfod o'r Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant i drafod rhan y Pwyllgor Addysg yn yr adolygiad o'r Iaith Gymraeg.

Hefyd i gofnodi diddordeb y Pwyllgor yn yr adolygiad o chwaraeon fel y mae'n effeithio ar ysgolion a'r cwricwlwm cenedlaethol.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddatgan diddordeb y Pwyllgor yn yr adolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan wahodd ei Phwyllgor i enwebu aelod i'w gynrychioli yn y Pwyllgor Addysg pan fyddai trafodaeth ar faterion Anghenion Addysgol Arbennig;

gan ddatgan diddordeb y Pwyllgor yn hynt Mesur y Comisiynydd Plant; ac mewn Rhaglenni Gwella Iechyd o ran eu perthynas â phlant, e.e. prydau ysgol, llaeth ysgol.

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gan ddatgan diddordeb mewn trafodaethau ynghylch y Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid ac mewn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn enwedig lle'r oedd hynny'n gysylltiedig â Dysgu Gydol Oes.

Nododd y Pwyllgor hefyd fod y Pwyllgor i dderbyn cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ‘pwysau’ – cytunwyd y byddai’r Cadeirydd yn datgan diddordeb y Pwyllgor ac yn gofyn a gâi dderbyn copi o’r adroddiad y cyfeirir ato.

(ymchwilio i’r posibiliad o gyfarfod ar y cyd ar gyfer yr eitem hon.)

**4. Adolygiad Polisi – Addysg Uwch**

Cytunwyd i wahodd yr undebau Addysg Uwch i roi tystiolaeth i’r Pwyllgor. Y Clerc i drefnu dyddiad addas.